# Ysgol Bro Dyfrdwy

DRAFT

# Protocol Cynhwysiant

| | |
|---|---|
| Mabwysiadwyd y polisi yma gan y Corff Llywodraethol ar: | Dyddiad: |
| Adolygir: | Dyddiad: |
| Arwyddwyd gan Cadeirydd y Llywodraethwyr: | |

# Protocol Cynhwysiant

*NODWCH: Ceir testun enghreifftiol o dan y penawdau, fodd bynnag, disgwylir i chi addasu'r protocol i adlewyrchu eich ysgol eich hun.*

Dyddiad: Hydref 2024

Dyddiad adolygu: Hydref 2025

Fersiwn: 1

DRAFT

## Cyflwyniad

### Sut y lluniwyd y protocol hwn?

• Lluniwyd y protocol hwn mewn partneriaeth â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Arweinwyr Clwstwr y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), y Llywodraethwr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), staff cynrychioliadol, rhieni / gofalwyr a phlant / pobl ifanc. Mae'n adlewyrchu'r canllawiau statudol a nodir yn y Cod ADY (2021).

### Sut mae'r protocol hwn yn cael ei werthuso?

• Mae'r protocol hwn yn cael ei fonitro, ei werthuso a'i adolygu bob blwyddyn gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cydlynydd ADY a Llywodraethwr ADY, ac fe'i cymeradwyir gan y Corff Llywodraethu Llawn.

• Mae'r Cydlynydd ADY, y Pennaeth a'r corff Llywodraethu yn gwerthuso effeithiolrwydd yn flynyddol yn erbyn yr egwyddorion a'r amcanion a nodir yn y protocol.

### Sut gall rhieni gael mynediad i'r protocol hwn?

• Gall rhieni weld copi ar wefan yr ysgol neu gellir gofyn am gopi caled o swyddfa'r ysgol. (Rhowch wybod i'r ysgol os oes arnoch angen copi mewn fformat gwahanol).

## Cyd-destun

Mae'r protocol hwn yn cydymffurfio â'r gofyniad statudol a nodir yng Nghod ADY (2021) ac fe'i hysgrifennwyd gan gyfeirio at y canllawiau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol: **er enghraifft**

• Deddf Cydraddoldeb 2010:

• Polisi diogelu

• Polisi derbyniadau

## Ethos / Datganiad Rhesymeg

Yn YSGOL BRO DYFRDWY caiff pob dysgwr eu gwerthfawrogi fel unigolion a rhoddir sylw i'w hanghenion amrywiol mewn modd sensitif ac effeithiol. Ein nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael cwricwlwm eang, cytbwys sydd wedi'i wahaniaethu gan sicrhau bod hunan-barch a hyder yn cael eu gwella a bod agwedd gadarnhaol yn cael ei datblygu.

Mae YSGOL BRO DYFRDWY wedi ymrwymo i gynnwys pob dysgwr yn llwyddiannus gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn ein hysgol ni, mae pob athro yn athro i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY.

Yn YSGOL BEO DYFRDWY mae pob dysgwr yn gyfartal, yn werthfawr ac yn unigryw. Ein nod yw darparu amgylchedd lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ffynnu. Byddwn yn ymateb i unigolion mewn ffyrdd sy'n ystyried eu profiadau bywyd amrywiol a'u hanghenion penodol.

Mae YSGOL BRO DYFRDWY wedi ymrwymo i ddarparu addysg sy'n galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd fel eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu, yn dod yn unigolion hyderus sy'n byw bywydau llawn ac yn pontio'n llwyddiannus i fod yn oedolion

### Nodau ac Amcanion

- Datblygu darpariaeth ysgol gyfan effeithiol
- Sicrhau proses glir ar gyfer nodi, asesu, cynllunio, darparu ac adolygu ar gyfer pob dysgwr gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, gyda dysgwyr a'u teuluoedd yn ganolog yn y broses.
- Darparu cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys i gynnwys pob dysgwr ar bob lefel ac i hyrwyddo diwylliant dysgu cynhwysol
- Sicrhau darpariaeth gyfartal i bob dysgwr gan gynnwys y rhai ag ADY
- Galluogi pob dysgwr gan gynnwys y rhai ag ADY i gyflawni eu potensial
- Sicrhau bod dysgwyr yn cymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau gyda chymorth eu teuluoedd (lle bo'n briodol)
- Ystyried barn, dymuniadau a theimladau dysgwyr gyda chefnogaeth eu teuluoedd (lle bo'n briodol)
- Rhoi cyngor a chymorth i'r holl staff sy'n gweithio gyda dysgwyr gan gynnwys y rhai ag ADY

DRAFT

### Partneriaeth â theuluoedd

Mae'r dysgwr wrth wraidd popeth a wnawn a byddwn yn gweithio gyda theuluoedd i sicrhau'r canlyniadau gorau i'w plentyn.

Mae ein hysgol wedi ymrwymo i sefydlu a chynnal perthynas waith dda gyda theuluoedd ein holl ddysgwyr ac mae'n cydnabod pwysigrwydd partneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol. Rhoddir gwybod i'r rhieni am gynnydd y dysgwr ac fe'u hanogir i chwarae rhan weithredol yn y dysgu ac i gefnogi targedau a osodwyd. Dylai rhieni sydd â phryderon am eu plentyn drafod y rhain yn gyntaf gyda'r athro dosbarth a bydd ef neu hi wedyn yn hysbysu'r Cydlynydd ADY os bydd angen. Mae'r rhieni'n cymryd rhan lawn yn y broses adolygu. Mae gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformatau hygyrch a rhoddir digon o rybudd ar gyfer cyfarfodydd er mwyn rhoi cyfle i rieni/gofalwyr baratoi.

## Darpariaeth

### Trosolwg

Yn YSGOL BRO DYFRDWY rydym yn mabwysiadu dull "addysgu o ansawdd uchel". Addysgu o ansawdd uchel, wedi'i wahaniaethu ar gyfer dysgwyr unigol, yw'r cam cyntaf tuag at helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial.

Nodweddion allweddol addysgu o ansawdd uchel yw:

- Cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol gyda'r dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn
- Addysgu o ansawdd uchel sydd wedi'i wahaniaethu
- Disgwyliadau uchel pob disgybl
- Defnydd priodol o holi, modelu ac esbonio gan yr athro

### Asesu, Cynllunio a Gwneud

Os penderfynir rhoi cymorth i ddysgwr, byddwn yn siarad â'r rhieni a'r plentyn. Byddwn yn cytuno pa addasiadau, ymyriadau a chymorth a roddir ar waith, yn ogystal â'r effaith ddisgwyliedig ar gynnydd, datblygiad neu ymddygiad, ynghyd â dyddiad clir ar gyfer adolygu. Bydd yr athro dosbarth yn parhau i fod yn gyfrifol am weithio gyda'r plentyn yn ddyddiol.

### Adolygu

Bydd effeithiolrwydd y cymorth a'r ymyriadau a'u heffaith ar gynnydd y dysgwr yn cael eu hadolygu ar y dyddiad y cytunwyd arno.  Bydd yr athro dosbarth neu'r athro pwnc, gan weithio gyda'r Cydlynydd ADY, yn adolygu'r cymorth yn sgil cynnydd y dysgwr. Os na fydd dysgwr yn gwneud cynnydd disgwyliedig dros gyfnod parhaus o amser, bydd yr ysgol yn chwilio am gymorth arbenigwyr ac efallai y bydd angen ystyried ADY. Bydd hyn yn cyfrannu at y ddarpariaeth yn y dyfodol. Mae'r ysgol yn cysylltu â'r gwasanaethau canlynol - Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Iechyd Ysgol, Gwasanaeth Ffisiotherapi, Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, pan fo'n briodol, y Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant sy'n Derbyn Gofal.

### Cymorth Cyffredinol

Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael cymorth ar lefel Gyffredinol. Bydd hyn yn digwydd yn bennaf yn yr ystafell ddosbarth, a gallai gynnwys gwaith sydd wedi'i wahaniaethu.

### Wedi'i Dargedu'n Gyffredinol

Os na wneir cynnydd disgwyliedig, efallai y bydd angen rhoi rhai ymyriadau / strategaethau ar waith sy'n targedu maes gwendid y plentyn neu'r person ifanc.

### Darpariaeth Dysgu Ychwanegol

Os ystyrir bod gan ddysgwyr ADY a bod angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (ALP) arnynt, bydd Cynllun Datblygu Unigol yn cael ei roi ar waith. Fel rhan o'r broses ystyried ADY, penderfynir ar y math o ALP.

## Diffiniad o ADY

2.3. Mae Adran 2 o'r Ddeddf yn diffinio'r term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY), fel y'i nodir isod (Cod ADY, 2021, t. 28):


1. *Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.*
2. *Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—*

    *(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu*

    *(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.*
3. *Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn isadran (2) pan fydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai'n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.*
4. *Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.*

## Cefnogi CDP dysgwyr

Cynhelir cyfarfodydd adolygu ffurfiol yn ôl y galw ond o leiaf un waith y flwyddyn, lle bydd rhieni a dysgwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o adolygu cynnydd a gosod deilliannau newydd. Mae athrawon dosbarth yn gyfrifol am dangos tystiolaeth o gynnydd yn unol â'r deilliannau a ddisgrifir yn CDU y dysgwr.



## Ymateb graddedig

| Cyfrol o ddysgwyr | Lefel o ymateb graddedig | Egwyddorion Cyffredinol | Darpariaeth cynhwysol |
|---|---|---|---|
| **Mwyafrif o ddysgwyr** | **Cyffredinol** | Gwahaniaethu cyffredinol ac addasiadau rhesymol | Addasiadau rhesymol<br>Gwahaniaethu o ansawdd uchel<br>Grwpiau atgyfnerthu<br>Cefnogaeth gyffredinol |
| **Rhai dysgwyr** | **targedu cyffredinol** | Gwahaniaethu unigol/ cyfyngiad amser ymyrraeth wedi ei dargedu/darpariaeth â yrrir gan feini prawf | DSOS / Addysg gynnar<br>Tîm Allgymorth<br>Ymyrraeth tymor byr |
| **Lleiafrif o ddysgwyr** | **Darpariaeth dysgu ychwanegol (CDU)** | Darpariaeth barhaus i ganiatàu mynediad i ddysgu<br><br>*(gall gynnwys darpariaeth cyffredinol/wedi ei dargedu os oes ei angen yn y tymor hir i* ganiatàu mynediad i ddysgu) | YTM / YPB /<br>Secondary PRU<br>Tymor hir<br>Ymyriadau |

| Lefel ymateb graddedig | Y timau cynhwysiant sy'n cael eu cynnwys | Dogfennau/angen recordio |
|---|---|---|
| **Cyffredinol** | TEAM AROUND THE SCHOOL / Teachers / Family Link Workers / TAs / Learning Mentors / ALNCo / Educational Psychologists (EP)/ TRAC / Families First / DSOS Team / ALN Officers / Young Persons Counselling Service / SALT / CAMHS / Schools inreach project team | **Cyffredinol/Tîm o amgylch yr ysgol**<br>Olrhain ysgol/Cofnod Dysgu (targedau unigol)<br>Proffil un tudalen |
| **Wedi eu targedu'n gyffredinol** | SSLDT / DSOS Team / EP / YTM Outreach | **Gwasanaethau Allgymorth**<br>'Proffil dysgwr/Ffurflen gais am ymgyfraniad |
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol (angen CDU)** | Athrawon arbenigol/ADY, DSOS, EY, DT Arbenigol/Darpariaeth arbenigol/Swyddogion Lles Adran addysg/ Swyddogion adolygu annibynnol (LAC) / Gweithwyr iechyd proffesiynol ac arbenigol/ SNAP (gwasanaeth datrys anghydfod annibynnol)/ Swyddogion Plant ac oedolion/ EP | **Penderfyniadau'r ysgol**<br>Ystyriaeth ADY<br><br>**Penderfyniadau'r panel**<br>Ailystyriaeth ADY/ Ystyriaeth/ceisiadau newid darpariaeth |

## Darpariaeth ar lefel ysgol

**Ysgol: Bro Dyfrdwy**

**Cyffredinol**

**GWYBODAETH A DYSGU**

**Dyfal donc darllen, Dyfal donc rhifedd, cefnogaeth cymhorthyddion, ffoneg uniongyrchol, saf meds, cyflwyno cysyniad mathemateg y dosbarth wythnos ynghynt**

**IAITH A CHYFATHERBU**

**Amserlenni gweledol, Strategaethau Elklan**

**ESBD**

**Sesiynau ELSA, grŵp anogaeth, cynghorydd yn yr ysgol, unearthing, Dysgu drwy'r tymhorau, rhaglen ffrindiau,** RM Maths, TT ROCK STARS

*Trefniadau dosbarth/rheolaeth dosbarth dda*

**Targedu cyffredinol**

**GWYBODAETH A DYSGU**

**Toe by toe, PAT, cymorth CA wedi ei dargedu e.e. ar raglen – Gwaith gyda grŵp bach wedi ei dargedu am dymor, dysgeidiaeth fanwl.**

*Acceleread, accelewrite*

**IAITH A CHYFATHREBU**

**CCU, cymhorthion cyfathrebu lefel is**

**ESBD**

**Yr uchod ynghyd â dyddiadur ysgol adre, allgymorth gan BSS, allgymorth ASD, Tir Morfa, Plas Brondyffryn**

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**GWYBODAETH A DYSGU**

**Cefnogaeth CA rhan neu lawn amser, mynediad hirdymor i ymyriadau amrywiol**

**IAITH A CHYFATHREBU**

**Lleoliad mewn uned, mwy o gymhorthyddion cyfathrebu lefel uwch.**

**ESBD**

**Addysg oddi ar y safle/PRU/algymorth parhaus gan BSS a cynllunio aml asiantaeth megis defnyddio'r gwasanaeth allgymorth ASD a BSS a EP a CALDS, mewnbwn am gyfnodau hir o amser/hyd addysg ysgol gynradd.**

DRAFT

## Cyfranogiad Dysgwyr:

Caiff barn pob dysgwr eu gwerthfawrogi ac fe'u cefnogir i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac i allu mynegi unrhyw bryderon.

## Cefnogi dysgwyr â chyflwr meddygol

Bydd pob achos yn cael ei drafod ar sail unigol er mwyn sicrhau bod gofal priodol a phersonol ar gael.

## Datblygu staff

Er mwyn cynnal a datblygu ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth i ymateb i gryfderau ac anghenion pob dysgwr, caiff yr holl staff eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn adolygu anghenion hyfforddi staff drwy Reoli Perfformiad a chynnydd disgyblion i gynllunio DPP priodol. Mae'r Cydlynydd ADY yn sicrhau bod staff yn cael gwybod am ddatblygiadau lleol a cenedlaethol mewn perthynas ag ADY a Chynhwysiant. Lle bo'n briodol, defnyddir arbenigwyr i ddarparu'r hyfforddiant.

## Monitro a Gwerthuso

Mater i'r ysgol gyfan yw diwallu anghenion pob dysgwr ac mae'r ddarpariaeth yn cael ei monitro a'i gwerthuso'n rheolaidd.

## Trefniadau Derbyn

Cyfeiriwch at y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ym Mhrotocol Derbyn yr ysgol sydd ar gael ar wefan yr ysgol.

## Trefniadau Pontio

Mae'r cyfnod pontio'n cael ei gynllunio'n ofalus. Er mwyn sicrhau trefn lwyddiannus o bontio o fewn yr ysgol ac o leoliad/ysgol i leoliad/ysgol, bydd dysgwyr a theuluoedd yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o gynllunio'r cam o drosglwyddo i'r lleoliad newydd. Bydd gwybodaeth allweddol yn cael ei rhannu gyda'r ysgol/lleoliad nesaf drwy'r broses adolygu.

## Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC)

Mae'r athro dynodedig yn gweithio i sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n derbyn gofal.

## Rôl a Chyfrifoldebau

### Bydd llywodraethwyr yn sicrhau:

- Bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn cael ei chynnig i bob dysgwr.
- Bod yr holl staff yn ymwybodol o'r angen i nodi a darparu ymyrraeth gynnar i gefnogi dysgwyr a allai fod yn cael anhawster.

DRAFT

- Bod pob dysgwr ag ADY yn ymuno mewn gweithgareddau ysgol ochr yn ochr â dysgwyr eraill, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ac yn gydnaws â'u hanghenion ac addysg effeithlon dysgwyr eraill.
- Hysbysir rhieni os yw'r ysgol yn penderfynu rhoi cymorth i ddysgwyr.
- Cânt eu hysbysu'n llawn am faterion ADY, fel y gallant chwarae rhan sylweddol yn hunan-adolygiad yr ysgol
- Cynhelir cyfarfodydd bob tymor rhwng y Cydlynydd ADY
- Bydd y Protocol Cynhwysiant yn cael ei fonitro, ei werthuso a'i adolygu bob blwyddyn gan y llywodraethwr Cynhwysiant a'i gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu Llawn

## Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am:

- Reoli pob agwedd ar waith yr ysgol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer pob dysgwr.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r corff llywodraethu am faterion cynhwysiant.
- Gweithio'n agos gyda'r ADY.

## Rôl y Cydlynydd ADY yn Ysgol BRO DYFRDWY

Ceir disgrifiad llawn o rôl y Cydlynydd ADY yn y Cod ADY (2021). Mae'r isod yn drosolwg lefel uchel:

*Rôl yr ADY*

*8.7. Er bod pob athro ac aelod o'r staff addysgu yn addysgu plant a phobl ifanc ag ADY, y Cydlynydd ADY yw'r unigolyn sy'n mynd ati ar lefel strategol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu. Mae ei rôl yn un strategol o fewn y lleoliad addysg a dylai, felly, naill ai fod yn aelod o'r uwch dîm arwain neu fod â llinell gyfathrebu glir i'r uwch dîm arweinyddiaeth. Bydd hyn o gymorth i'r lleoliad addysg wrth gynllunio, rheoli a chyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau o ran adnabod a diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY.*

*8.8. Er mwyn cefnogi'r Cydlynydd ADY, dylai'r uwch dîm arwain gynghori, cefnogi a herio systemau a phrosesau'r lleoliad addysg i adnabod a diwallu anghenion dysgwyr. Gall yr awdurdod lleol gefnogi rôl y Cydlynydd ADY, gan gynnwys darparu arweiniad pan fo hynny'n briodol.*

*8.9. Bydd angen i'r Cydlynydd ADY gyfrannu at y gwaith o gydlynu adnoddau ADY mewn ffordd strategol, er enghraifft trefnu a chefnogi staff a gweithio gydag aelodau o'r uwch dîm arwain i gynllunio a phenderfynu ar yr adnoddau priodol sydd eu hangen i gefnogi staff yn y lleoliad. Dylai Cydlynwyr ADY gymryd rhan weithgar mewn penderfyniadau yn ymwneud â chyllidebau ac adnoddau i helpu i gynllunio darpariaeth briodol.*

*8.10. Ni ddisgwylir i'r Cydlynydd ADY gymryd rhan uniongyrchol yn y broses bob dydd o gefnogi dysgwyr unigol ag ADY. Yr athro dosbarth sy'n gyfrifol am wneud hynny,*



DRAFT

*ond mae staff cymorth dysgu yn gallu helpu'r Cydlynydd ADY i sicrhau bod athrawon yn cael eu cefnogi a bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.*

Yn ogystal â'r rôl a'r cyfrifoldebau a nodir yn y Cod ADY (2021) yn Ysgol BRO DYFRDWY mae'r Cydlynydd ADY hefyd yn cydlynu:

- cyfeiriad at gefnogi dysgwyr ar y lefel gyffredinol.
- canllawiau ar bwy i gysylltu â nhw yn yr ysgol os oes unrhyw bryderon ynghylch ADY neu ddysgwyr sydd angen cymorth. Gallai hyn fod ar gyfer rhieni a/neu staff
- *Cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr y gallai fod angen cymorth arnynt.*
- *Cefnogi athrawon dosbarth i lunio strategaethau, gosod targedau sy'n briodol i anghenion y dysgwyr, a chynghori ynghylch adnoddau a deunyddiau priodol i'w defnyddio gyda dysgwyr y gallai fod angen cymorth arnynt ac ynghylch defnyddio deunyddiau a phersonél yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.*
- *Cysylltu ag asiantaethau allanol, trefnu cyfarfodydd a darparu cyswllt rhwng yr asiantaethau hyn, athrawon dosbarth a rhieni*
- *Cadw cofrestr cofnodion darpariaeth yr ysgol a chofnodion*
- *Cysylltu â Chydlynwyr ADY wrth dderbyn ysgolion a/neu ysgolion eraill i helpu i bontio'n llwyddiannus o un ysgol i'r llall*

## Mae athrawon dosbarth yn gyfrifol am:

- Ddarparu addysgu o ansawdd uchel i bob plentyn gan osod disgwyliadau uchel sy'n ysbrydoli, ysgogi a herio dysgwyr.
- Asesu lefel dysgwr a chynllunio addasiadau, ymyriadau a chymorth priodol i gyd-fynd â'r deilliannau a nodwyd ar gyfer y dysgwr.
- Adolygu effaith yr addasiadau, yr ymyriadau a'r cymorth yma'n rheolaidd, gan gynnwys dysgwyr ag ADY yn yr ystafell ddosbarth, drwy ddarparu cwricwlwm sydd wedi'i wahaniaethu'n briodol.
- Bod yn gyfrifol am y dysgwr.
- Bod yn gyfarwydd â Phrotocol Cynhwysiant yr ysgol a gweithdrefnau ar gyfer adnabod, monitro a chefnogi dysgwyr y gallai fod angen cymorth arnynt
- Cysylltu'n uniongyrchol â rhieni dysgwyr y gallai fod angen cymorth arnynt
- Rheoli ymddygiad yn effeithiol er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu da a diogel

## Mae Cynorthwywyr Addysgu (CAu) yn gyfrifol am:

- Gefnogi grwpiau neu ddysgwyr unigol i gael mynediad i'r cwricwlwm o dan gyfarwyddyd yr athro dosbarth a/neu'r ADY.
- Rhoi adborth i'r athro dosbarth ynglŷn â chynnydd.
- Rhoi adborth i'r athro dosbarth a/neu'r Cydlynydd ADY fel y bo'n briodol, ynghylch cynnydd dysgwyr o ran cyrraedd targedau.
- Darparu rhaglenni ymyrraeth penodol (ac adrodd yn ôl arnynt) o dan gyfarwyddyd y Cydlynydd ADY a/neu'r athro dosbarth.

## Y Weithdrefn Gwyno

Mae cwynion yn dilyn y weithdrefn gwyno briodol.

## Pobl allweddol o fewn yr ysgol

Llywodraethwr ADY: Llio Davies

Staff Dynodedig sydd â chyfrifoldeb Diogelu penodol: Bethan Fell & Sion Williams

Aelod o staff sy'n gyfrifol am Blant sy'n Derbyn Gofal: Bethan Fell

Enw'r Cydlynydd ADY: Heledd Rees

Manylion cyswllt y Cydlynydd ADY: Ffon: 01490 412 500 e-bost:

ReesH137@hwbcymru.net

DRAFT